| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Rhoi Gwybod am Iechyd a Diogelwch** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 1 Mai 2014, nodwyd a thrafodwyd materion sy'n gysylltiedig â rhoi gwybod am Iechyd a Diogelwch. Roedd pryderon penodol ynglŷn â'r nifer uchel o fathau o ddamweiniau "Arall" ac "Amh" sy'n cael eu cofnodi.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol a fyddai'n amlinellu'r materion a'r cynnydd hyd yma ar ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â chofnodi a rhoi gwybod am ddata ar gategorïau damweiniau ar gyfer adroddiadau Iechyd a Diogelwch (gan gynnwys camau a nodwyd a'r graddfeydd amser ar gyfer datrys y broblem).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad o'r materion sy'n gysylltiedig â rhoi gwybod am ddigwyddiadau iechyd a diogelwch a'r camau a gymerir i ymdrin â nhw.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Dylai'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad drafod a rhoi sylwadau ar y materion sy'n gysylltiedig â rhoi gwybod am ddigwyddiadau iechyd a diogelwch a'r camau a gymerir i ymdrin â nhw.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Yn ystod y flwyddyn 2011, cysylltodd yr Adran Iechyd a Diogelwch â'r Tîm System Rheoli Cofnodion Dogfennau Electronig (EDRMS) a TGCh Corfforaethol i weld a fyddai'n bosibl i ddatblygu system adrodd bwrpasol.

4.2 Cynhaliwyd amryw o gyfarfodydd cwmpasu ac argymhellodd TGCh Corfforaethol ac EDRMS y dylid dewis System Civica ochr yn ochr â ffurflen gwe a ddatblygwyd yn fewnol.

4.3 Gofynnwyd i Civica gwmpasu'r cais a rhoi dyfynbris. Crëwyd y system PRAWF gan Civica a datblygwyd y ffurflen gan TGCh. Gwnaethpwyd profion a

rhoddwyd hyfforddiant i ddefnyddwyr yn gynnar yn 2012. Aeth y system yn fyw yn ystod mis Mai 2012.

4.4 Tua 12 mis ar ôl mynd yn fyw, dechreuodd y tîm Iechyd a Diogelwch godi problemau ynglŷn â’r meysydd "Amh" ac "Arall" ac ychydig o faterion system eraill, gan gynnwys yr anallu i gynhyrchu adroddiadau awtomataidd. Mae'r materion hyn yn arwain at golli hyder yn y system.

4.5 Er mwyn datrys y materion hyn, mae'r camau gweithredu canlynol wedi’u cytuno yn ddiweddar rhwng TGCh, EDRMS ac Iechyd a Diogelwch:

- Bydd adroddiadau chwarterol safonol yn cael eu cynhyrchu o fis Gorffennaf 2014 ymlaen (gan ddileu meysydd "Arall" ac "Amh") (Tîm EDRMS)
- Gwneud newidiadau i'r ffurflen gwe (TGCh)
- Uwchraddio’r caledwedd a meddalwedd EDRMS, sy'n galluogi meysydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau mwy manwl (Civica a TGCh)
- Gweithredu newidiadau meysydd (Civica)
- Bydd adroddiadau mwy manwl yn cael eu hysgrifennu yn dilyn y newidiadau i’r meysydd (Tîm EDRMS).

4.6 Rhagwelir y bydd y tasgau uchod yn cael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2014.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ond mae’n helpu i gydymffurfio â gofynion rhoi gwybod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd angen i rai o’r tasgau ym mharagraff 4.5 gael eu gwneud gan TGCh Corfforaethol. Mae'r pecynnau gwaith hyn wedi eu trafod a'u cytuno gyda TGCh Corfforaethol.

6.2 Telir y costau sy'n gysylltiedig â'r diweddariad caledwedd a meddalwedd EDRMS o'r gyllideb EDRMS ac roeddent eisoes i fod i gael eu gwneud yn ystod 2014.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Nid oedd ei angen ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Rhaid i unrhyw gostau gael eu cynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Amherthnasol

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu pwerau’r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â’r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol
Ffôn: 01824 708246